

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 18 fed Ionawr 2017 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A.R. James (Dirprwy Faer)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, S. H. Ratcliffe, A. J. Rutherford, D. Simmons, T. Thomas a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Mr. A.O. Williams – Swyddog Cyllid

106. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

Adroddodd Clerc y Dref am farwolaeth drist cyn Gynghorydd Tref y Rhyl a Maer y Dref Mr Glyn Williams. Cafwyd munud o dawelwch er cof amdano.

107. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cyngorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl), Ms J. Hughes (ymrwymiad arall), Miss S.L. Roberts (yn sâl), W. N. Tasker (yn sâl), y Parchedig S. Walker (ymrwymiad gwaith) a Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref (yn sâl)

108. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 21ain Rhagfyr 2016 - Rhifau Cofnod 89-98

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 21an Rhagfyr 2016 - Rhifau Cofnod 40-42

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. C. Chard a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cyngor Arbennig - 4ydd Ionawr 2017 - Rhifau Cofnod 99-101

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 4ydd Ionawr 2017 - Rhifau Cofnod 43-45

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. C. Chard a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a - 4ydd Ionawr 2017 - Rhifau Cofnod 85-96
Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

109. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

110. CYNGOR SIR DDINBYCH – DATBLYGIAD ARFAETHEDIG AR Y PROMENAD / ADLEOLI'R CYNGOR TREF

Ymhellach i gofnod rhif 104 Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 6ed Ionawr 2017, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ysgrifenedig cyfrinachol yn hysbysu o'r ymateb gan Gyngor Sir Ddinbych i'r cynnig o gyfraniad mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig ar y promenâd.

Dywedodd yr adroddiad bod y Cyngor Tref wedi ymateb a thra'n gwerthfawrogi'r cynnig yr oedd y Cyngor Tref wedi ei wneud o ran lefel y cyfraniad, byddai'n annigonol alluogi i'r datblygiad fynd rhagddo.

Nododd yr Aelodau yn eu hymateb bod y Cyngor Sir nawr wedi eu hysbysu o newidiadau arwyddocaol i'r cynnig fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol i'r Cyngor Tref yn ystod cyflwyniadau, a mynegi pryderon eu bod yn cael cais i gynyddu cyfraniadau heb weld unrhyw gynlluniau diwygiedig.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi cynnig a wnaed gan y Cyngor Sir mewn perthynas ag adleoliad arfaethedig y Cyngor Tref. Dywedodd rhai Aelodau bod hyn, trwy gysylltu dau fater ar wahân, yn medru rhoi'r argraff i drigolion eu bod yn dibynnu ar ei gilydd a bod penderfyniad gan y Cyngor ar un elfen yn cael ei yrru gan y llall, yn hytrach na bod y ddau yn fater i'w gwerthuso ar wahân.

Mynegodd yr Aelodau anfodlonrwydd hefyd ynglŷn â'r broses trwy'r hon yr oedd gwybodaeth wedi ei rhoi i'r Cyngor Tref yn wreiddiol a theimlasant, oherwydd y newidiadau arwyddocaol a oedd i'r cynnig a lefel yr ymrwymiad a geisiwyd nawr, yna dylai uwch swyddogion ac Aelodau priodol y Cabinet fynychu cyfarfod gyda'r Cyngor Tref ac ymateb yn uniongyrchol i bryderon Aelodau'r Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD

(a) *Hysbysu'r Cyngor Sir bod lefel y cyfraniad a geisiwyd nawr yn cael ei chymeradwyo mewn egwyddor yn ddarostyngedig i'r amodau a oedd yn berthnasol i gynnig blaenorol y Cyngor Tref ac i uwch swyddogion perthnasol y Cyngor Sir ac Aelod y Cabinet gyda chyfrifoldeb am Ddatblygu Economaidd fynychu cyfarfod yn fuan gyda'r Cyngor Tref i roi manylion y newidiadau ac i drafod pryderon yr Aelodau.*

(b) Hysbysu'r Cyngor Sir mewn egwyddor yr hoffai'r Cyngor Tref ystyried y cynnig o adleoliad i'r safle amgen yn y Rhyl.

(c) Pe byddai angen, bod gofyn i Aelodau Is-bwyllgor Asesu Risg y Cyngor Tref i weithredu ar ran y Cyngor Tref mewn trafodaethau manwl gyda'r Cyngor Sir.

111. SESIWN AGORED

Ar ddiwedd yr eitem uchod, **PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod yn parhau mewn sesiwn agored.

112. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at ddigwyddiadau a fynychwyd ganddo ef a'r Maer dros y mis diwethaf gan gyfeirio'n benodol at fynychu lansiad swyddogol Datblygiad Tai Afallon gan Gydweithfa Dai Gorllewin y Rhyl.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

[Gadawodd y Cyngorydd A.J. Rutherford y cyfarfod am 7.20 p.m.]

113. CYFLWYNIAD: MR. R. WALSH – 4 THE COMMUNITY

Croesawodd y Dirprwy Faer i'r cyfarfod Mr. Rob Walsh a'i wahodd i annerch y cyfarfod mewn perthynas â gweithgareddau grŵp 4 The Community.

Hysbysodd Mr. Walsh y Cyngor bod

- 4 The Community wedi ei sefydlu ar ôl cyfuno nifer o grwpiau gan gynnwys One Rhyl.
- Er ei fod wedi ei leoli yn Nhŷ Eglwys y Santes Fair, nad oedd y grŵp yn un crefyddol.
- Ar hyn o bryd roedd 5 aelod o staff cyflogedig a 14 o wirfoddolwyr.
- Roedd eu gwaith yn cynnwys darparu rhyngwyd am ddim yn ardaloedd yr Arena Digwyddiadau, menter Men's Sheds, Gemau Stryd, Grŵp Rhieni a Babanod, datblygu eiddo'r seintwar fel cyfleusterau cymunedol, grŵp Celfyddydau a Chrefftau, Yoga, ysgol gitâr a cherddoriaeth, prosiectau Allgymorth, Cyflwyniad i'r Saesneg, darparu safle i fudiadau eraill gynnig gwasanaethau, a darparu digwyddiadau awyr agored yn yr haf ar grŵn yr Eglwys.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd Mr. Walsh:

- Y byddai'n ystyried y posibilrwydd o ddarparu cynllun chwarae i ardal Groves y dref.
- Y byddai'n dosbarthu copïau llythyr tlodi i'r Aelodau.
- Nad oedd y gweithgareddau yn cael eu cyfyngu i addolwyr ffyrdd benodol.
- Y byddai'n hapus i fod yn rhan o unrhyw drafodaethau mewn perthynas â Chae Chwarae Antur y Rhyl.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, mynegodd y Dirprwy Faer ei werthfawrogiad i Mr. Walsh.

114. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – POLISI DRAFFT MASNACHU AR Y STRYD

Cyflwynwyd y ddogfen uchod (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Aelodau wneud sylwadau.

PENDERFYNWYD hysbysu'r Cyngor Sir yr hoffai'r Cyngor Tref weld newid Paragraff 15 Atodiad 1 fel bod angen i bob un sy'n trin bwyd gael eu graddio 5* dan y sgôr glendid bwyd.

115. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2017/18

Cyflwynwyd y strategaeth fuddsoddi flynyddol fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth.

116. HOLI AC ATEB

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol

117. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

118. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfrinachol y cyfarfodydd canlynol er gwybodaeth i'r Aelodau.

Is-bwyllgor - 28ain Tachwedd 2016 - Rhifau Cofnod 21-27
Cynnal a Chadw Tiroedd

Pwyllgor CSG - 9fed Ionawr 2017 - Rhifau Cofnod 18-24

PENDERFYNWYD cydnabod y Cofnodion.

119. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

120. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: